Datganiad i'r Wasg

Llun: Gareth Lewis o Bow Street yn derbyn gonc Mistar Urdd gan Carol Davies, Cadeirydd yr Urdd. Hefyd yn y llun mae'r Mistar Urdd gwreiddiol, 32 oed a'r un diweddarach ynghŷd â Wynne Melville Jones, Llywydd Anrhydeddus yr Urdd a thad Mistar Urdd sy'n cyhoeddi llyfr newydd ym mis Mawrth fydd yn datgelu sut y ganwyd y cymeriad bach poblogaidd i'r byd.

Mistar Urdd wedi teithio 384,000 milltir

Dyw Gareth Lewis o Bow Street Ceredigion ddim yn un i fynd ar daith yn ei gar ar ei ben ei hun.

Ers 32 o flynyddoedd mae Gareth wedi cael cwmni Mistar Urdd yn hongian ar flaen ei gar ac mae'r ddau wedi teithio cyfanswm o 384,000 o filltiroedd gyda'i gilydd dros y cyfnod.

Fel un sydd wedi bod yn gyrru fan Llyfrgell y Sir yn ei waith pob dydd, nes iddo ymddeol ychydig yn ôl, mae Gareth yn gwybod yn dda beth yw teithio ar hyd ffyrdd gwledig Ceredigion ar ei ben ei hun.

Yn Siop Mistar Urdd yn Stryd y Dollborth yn Aberystwyth y prynodd Gareth y Mistar Urdd gwreiddiol yn 1978.

Erbyn hyn mae ar ei ail gonc (tegan medal) a'i bedwerydd car – pob un ond un yn Fordyn a'r ceir yn eu tro wedi bod yn goch, gwyn a gwyrdd. Mae'r gonc gwreiddiol yn dal i fod yn y car ond mae wedi dioddef o fod wedi cael gormod o haul a bu'n rhaid ei gyfnewid am un arall wyth mlynedd yn ôl.

Nawr mae'r Urdd wedi cydnabod ei gefnogaeth i'r mudiad fel un o ffrindiau gorau Mistar Urdd a galwodd Carol Davies Cadeirydd Cyngor yr Urdd heibio i gyflwyno gonc newydd sbon i Gareth.

Daeth yr ymweliad fel tipyn o syndod i Gareth a dywedodd ei fod wrth ei fodd o fod wedi cael gonc newydd lliwgar Mistar Urdd.

" Mae Mistar Urdd yn well cwmni ar daith na'r sat-nav ac os digwydd i mi fynd ar goll mae'n gwmni lliwgar ac mae lot o bobol yn sylwi ar y creadur bach trilliw

"Bydde'r car ddim 'run peth heb Mistar Urdd", meddai.

Nawr mae Gareth yn edrych ymlaen at ddarllen stori Mistar Urdd yn llawn yn llyfr tad Mistar Urdd Wynne Melville Jones 'Y Fi a Mistar Urdd a'r Cwmni Da' sy'n cael ei gyhoeddi gan *Y Lolfa* ddiwedd mis Mawrth, mewn da bryd ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol yr Urdd Ceredigion 2010.

Roedd Gareth yn hen aelod o'r Urdd pan oedd yn ddisgybl yn Ysgol Rhydypennau a nawr mae'n gobeithio mynd i'r Eisteddfod eleni yn Llanerchaeron.

"Byddai'n braf cael teithio yno mewn car newydd yn ogystal a gonc newydd Mistar Urdd, ond mae hynny'n gofyn gormod, siwr o fod", meddai.

Am fwy o fanylion, cysyllter â Manon Wyn, 01970 613115, **manonwyn@urdd.org**

NODIADAU I OLYGYDDION

- Urdd Gobaith Cymru yw prif fudiad ieuenctid Cymru.
- Mae'r Urdd yn cynnig cyfleoedd penigamp i blant a ieuenctid Cymru ers dros 80 mlynedd.
- Mae gan yr Urdd 51,000 o aelodau rhwng 8 a 25 oed.
- Sefydlwyd yr Urdd er mwyn rhoi cyfle i blant a phobl ifanc Cymru fyw bywydau byrlymus trwy gyfrwng y Gymraeg a magu hyder a pharch tuag at ei gilydd a phobl eraill yn y byd.
- Mae gweithgareddau'r Urdd yn cynnwys teithiau, chwaraeon, eisteddfod, cylchgronau, adrannau ac aelwydydd a gwersylloedd.